Disability Wales
Anabledd Cymru

# O Oroesi i Ffynnu

# Maniffesto Pobl Anabl

## 2026-2031

# Cynnwys



**O Oroesi i Ffynnu: Maniffesto Pobl Anabledd 2026–2031**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Galwad 1: Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA) | 3 |
| Galwad 2: Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cadarn | 4 |
| Galwad 3: Cynhwysiant Pobl Anabl mewn Arweinyddiaeth a Llywodraethu | 5 |
| Galwad 4: Ein Hawl i Fyw'n Annibynnol | 6 |
| Galwad 5: Datganoli Lles a Budd-daliadau | 8 |
| Casgliad | 10 |


Ffotograffau gyda chaniatâd Natasha Hirst

# Cyflwyniad



## O Oroesi i Ffynnu: Maniffesto Pobl Anabl 2026–2031

**Anabledd Cymru** yw corff cenedlaethol y Sefydliadau Pobl Anabl (SPA) yng Nghymru. Fel y sefydliad ymbarél ar gyfer SPA, ein cenhadaeth yw adeiladu **Cymru fwy cynhwysol** drwy gynrychioli eu llais ar y cyd a chydweithio ar draws pob sector o gymdeithas.

Datblygwyd y maniffesto hwn mewn cydweithrediad â'n haelodau SPA, ein grŵp polisi mewnol, ac unigolion anabl y mae eu profiadau byw a'u harweinyddiaeth yn ganolog i lunio'r weledigaeth a'r blaenoriaethau.

Dan arweiniad yr egwyddor "**Dim byd amdano ni hebddo ni**", rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl anabl a'u sefydliadau wrth galon gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cysylltu â dros **250 o bobl anabl** ledled Cymru i helpu i lunio'r maniffesto hwn. Daeth eu lleisiau drwy arolygon, ymchwil ymgynghori a grwpiau ffocws yn ymdrin â materion allweddol fel hawliau dynol, gofal cymdeithasol, tai, cyflogaeth, lles a budd-daliadau.

I adeiladu ar hyn, cynhaliwyd **tri grŵp ffocws** gyda'n grŵp polisi, sy'n cynnwys staff a chyfarwyddwyr, i sicrhau bod y maniffesto'n adlewyrchu profiadau byw pobl anabl ledled Cymru yn ogystal ag arweinyddiaeth ac arbenigedd pobl anabl yn ein sefydliad.

Mae aelodaeth Anabledd Cymru yn **cynnwys 19 o aelodau SPA â hawl** pleidleisio, grwpiau anabledd eraill a **600 o aelodau unigol**, gan gynrychioli cymuned anabl amrywiol ac a chroestoriadol. Yn seiliedig ar ein haelodaeth, bydd y maniffesto hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau go iawn pobl anabl yng Nghymru.

> Gyda'n gilydd, rydym yn hyrwyddo Model Cymdeithasol yr Anabledd ac yn ymgyrchu dros Gymru lle mae pobl anabl nid yn unig yn goroesi ond yn ffynnu go iawn.
>
> DisabilityWales

# Crynodeb



O Oroesi i Ffynnu: Maniffesto Pobl Anabl 2026–2031

## CRYNODEB

1. **Ymgorffori'r CCUHPA yn Neddfwriaeth Cymru.** Gwneud hawliau pobl anabl yn orfodol drwy ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl yn gyfraith Cymru.
2. **Cyflwyno Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cadarn.** Ymrwymo i strategaeth hirdymor drawsbleidiol wedi'i chydgynhyrchu gyda SPA, wedi'i chefnogi gan gyllid ac atebolrwydd, gan gynnwys Gweinidog dros Bobl Anabl.
3. **Hyrwyddo Arweinyddiaeth Pobl Anabl.** Cefnogi arweinyddion anabl mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys cynrychiolaeth mewn gwneud penderfyniadau, datblygu polisïau, a chyllido gwaith Sefydliadau Pobl Anabl.
4. **Gwarantu'r Hawl i Fyw'n Annibynnol.** Diwygio systemau gofal, tai ac iechyd i flaenoriaethu urddas, dewis a hygyrchedd, gan roi diwedd ar sefydliadoli ac hyrwyddo cynhwysiant .
5. **Datganoli Lles a Budd-daliadau i Gymru.** Creu system budd-daliadau deg wedi'i chydgynhyrchu sy'n adlewyrchu profiadau byw pobl anabl ac yn cefnogi diogelwch ariannol a chyflogaeth.

Disability Wales
Anabledd Cymru

## Ein 5 Galwad Allweddol

# Galwad 1



**Galwad 1: Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)**

Mae'r (**CCUHPA**) yn **gytundeb hawliau dynol rhyngwladol** sy'n nodi hawliau pobl anabl a rhwymedigaethau llywodraethau i gynnal y hawliau hynny.

Mae Anabledd Cymru wedi galw ers tro am ymgorffori'r CCUHPA yng nghyfraith Cymru. Roedd ymgorffori yn alwad ganolog yn ein Maniffestos yn 2015 a 2020.

**Roedd y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru.** Er gwaethaf yr addewid hwn, ni chafwyd unrhyw gynnydd deddfwriaethol.

Rhaid cydnabod ac ymateb i'r methiant hwn i weithredu. Mae pobl anabl yn parhau i wynebu **rhwystrau systemig** wrth geisio cael mynediad at eu hawliau. Heb ymgorffori, mae'r CCUHPA yn parhau'n fframwaith arweiniol yn hytrach na safon orfodol yn gyfreithiol.

> "Mae angen ymgorffori'r CCUHPA yn llawn i sicrhau bod ein hawliau'n cael eu cynnal yn effeithiol." Ymatebydd Arolwg Maniffesto 2025
>
> Disability Wales

**Yr hyn rydym yn galw amdano**

1.Ymgorffori'r CCUHPA yng nghyfraith Cymru drwy **ddeddfwriaeth sylfaenol**.
2.Darparu hyfforddiant ac adnoddau i ymgorffori egwyddorion CCUHPA ar draws y llywodraeth a'r gwasanaethau cyhoeddus. Cyflwyno **Cod Ymarfer penodol** o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** i gefnogi cyflawni'r CCUHPA.

# Galwad 2



**Galwad 2: Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cadarn**

Mae'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn **gynllun deng mlynedd** ar gyfer Cymru. Mae'r cynllun wedi'i gydgynhyrchu gan Lywodraeth Cymru, SPA a phobl anabl i hyrwyddo hawliau, cynhwysiant a lles pobl anabl. Mae'n nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu ar draws adrannau'r llywodraeth i fynd i'r afael â **rhwystrau sy'n anablu** ac i hyrwyddo **cydraddoldeb**.

Mae Anabledd Cymru yn croesawu datblygiad y **Cynllun** fel cam cadarnhaol tuag at ymgorffori hawliau pobl anabl mewn polisi ac ymarfer. Fodd bynnag, credwn fod angen cryfhau'r cynllun i sicrhau **effaith hirdymor ac atebolrwydd**. Mae cynllun tymor byr sy'n gysylltiedig â thymor unigol y Senedd yn peryglu colli momentwm ac yn methu â chyflawni newid parhaol.

Rhaid cydnabod Sefydliadau Pobl Anabl (SPA) fel partneriaid hanfodol wrth gyflwyno'r Cynllun Hawliau. Fel sefydliadau a arweinir gan ac ar gyfer pobl anabl, mae SPA yn dod â phrofiad byw, arbenigedd a pherthnasoedd dibynadwy yn ein cymuned. Heb fuddsoddiad a seilwaith cynaliadwy, ni all SPAs gymryd rhan lawn nac arwain cydgynhyrchu'r cynllun.

Rydym yn dychmygu Cymru lle mae hawliau pobl anabl yn cael eu cynnal drwy **strategaeth llywodraeth hirdymor drawsbleidiol** wedi'i **chydgynhyrchu** gyda Sefydliadau Pobl Anabl (SPA). Er mwyn symud o **oroesi i ffynnu**, rhaid cydnabod ac ariannu SPAs fel **partneriaid hanfodol** wrth lunio a chyflwyno'r trawsnewid hwn.

**Yr hyn rydym yn galw amdano**

1. Ymroddiad gan **bob plaid wleidyddol** i weithredu'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl **y tu hwnt i dymor presennol y Senedd**.
2. Ymgorffori mecanweithiau atebolrwydd clir, gan gynnwys sefydlu a chyllido'r **Bwrdd Cynghori Allanol**, adolygiadau cynnydd rheolaidd a chyhoeddi **adroddiadau cyhoeddus tryloyw**.
3. Blaenoriaethu SPA mewn cyllid, comisiynu a chyfleoedd partneriaeth i gefnogi cyflwyno'r cynllun.

# Galwad 3



**Galwad 3: Cynhwysiant Pobl Anabl mewn Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

Mae gan bobl anabl yr hawl i ffynnu, nid yn unig yn eu bywydau personol ond hefyd mewn **bywyd cyhoeddus.** Mae arweinyddiaeth, ymgysylltiad sifil, a chyfranogiad gwleidyddol yn feysydd hanfodol lle mae'n rhaid cefnogi pobl anabl i gael grym a llais cyfartal. Mae hyn yn cynnwys mynediad at swyddi etholedig, **cynrychiolaeth mewn gwneud penderfyniadau**, ac **arweinyddiaeth** ofewn cyrff cyhoeddus a phleidiau gwleidyddol.

Mae pobl anabl yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus. Mae rhwystrau i gyfranogiad yn cynnwys **systemau anhygyrch**, diffyg cefnogaeth ariannol, ac eithrio o lwybrau arweinyddiaeth.

Rydym yn dychmygu Cymru lle mae pobl anabl nid yn unig yn cael eu hymgynghori ond yn arwain y trafodaethau a'r penderfyniadau. Lle mae **ein lleisiau'n siapio polisïau**, ein profiadau'n llywio penderfyniadau, ac mae ein harweinyddiaeth yn weladwy ar bob lefel o lywodraethu. Mae hyn yn hanfodol I symud o oroesi i ffynnu.

> "Dydyn ni ddim eisiau cael ein gwrando arnom yn unig, oherwydd rydyn ni wedi cael digon ar ymarferion gwrando ffug lle mae ein barn yn cael ei chofnodi ond heb unrhyw effaith. Rhaid bod rhywbeth pendant, rhyw fecanwaith, lle mae'r hyn mae pobl anabl yn ei ddweud yn rhwymol mewn gwirionedd. A dylai pobl anabl allu arwain yr ymgynghoriadau eu hunain." Ymatebydd Arolwg Cynllun Pobl Anabl 2025
>
> Disability Wales

**Yr hyn Rydym yn Galw Amdano:**

1. I bleidiau ymrwymo i weithredu **canllawiau cydraddoldeb a chynhwysiant** ac i gyhoeddi adroddiadau ar gynnydd.
2. I bleidiau gyhoeddi'n **dryloyw** ganran eu haelodau anabl ar hyn o bryd a tharged ar gyfer gwella wrth agosáu at etholiadau Senedd 2026 a'r etholiadau Llywodraeth Leol 2027.
3. Ymrwymo i a chefnogi'r galwadau i sefydlu **Gweinidog dros Bobl Anabl yn y Senedd** i arwain ar hawliau a chynrychiolaeth pobl anabl.

# Galwad 4



**Galwad 4: Ein Hawl i Fyw'n Annibynnol**

Mae byw'n annibynnol yn hawl ddynol sylfaenol. Mae'n golygu cael y **rhyddid, urddas a'r rheolaeth** i wneud dewisiadau am eich bywyd eich hun.

Fodd bynnag, yng Nghymru heddiw, mae gormod o bobl anabl yn cael eu hamddifadu o'r hawl hon. Mae rhwystrau'n parhau i fod yn rhan annatod o systemau sydd heb ddigon o gyllid, wedi'u gyrru gan elw, ac **nad ydynt wedi'u cynllunio gyda phobl anabl mewn golwg**.

Mae'r rhwystrau hyn yn cymryd awtonomi oddi wrth bobl ac yn eu cadw'n gaeth mewn tai anaddas, trefniadau gofal anhyblyg ac amgylcheddau gwahaniaethol .
Mae byw'n annibynnol yn hawl ddynol ac mae'n rhaid iddo fod yn sail i bob gwasanaeth a chymorth i bobl anabl yng Nghymru. Rhaid i bobl anabl gael llais gwirioneddol a rheolaeth dros eu cymorth.

Rydym yn dychmygu Cymru lle gall pobl anabl gyflawni byw'n annibynnol, gyda'r cymorth cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir. Cymru lle nad yw gofal yn nwydd ond wedi'i wreiddio mewn urddas a dewis. Lle mae tai yn hygyrch, gwasanaethau iechyd yn gynhwysol, ac nad oes neb yn cael eu gorfodi i fyw mewn lleoliadau sefydliadol. Cymru lle rydym yn rhydd o gasineb, gwahaniaethu a rhagdybiaethau – a lle gallwn **ffynnu go iawn**.

> "Mae angen gweithlu gofal sydd â thâl gwell a chymorth, gyda chyllid i'n galluogi i fyw bywydau annibynnol. Ddim yn gyfyngedig i oriau? a nifer y gofalwyr sydd ar gael sy'n cyfyngu ar hawliau dynol ac yn trin pobl anabl fel pe baent mewn carchar."
> Ymatebydd Arolwg Cynllun Pobl Anabl 2025
>
> Disability Wales

# Galwad 4



**Yr Hyn Rydym yn Galw Amdano**

1. Gwella'r system gofal cymdeithasol drwy **ddileu modelau sy'n cael eu gyrru gan elw**, gwella tâl ac amodau gweithwyr gofal, a chynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol.
2. Sicrhau bod gan bobl anabl yr hawl i fyw'n **annibynnol yn eu cartrefi eu hunain**. Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn tai hygyrch, rhoi diwedd ar sefydliadoli, a darparu'r cymorth cymunedol sydd ei angen i fyw'n ddiogel ac yn rhydd.
3. Lansio ymgyrch genedlaethol i fynd i'r afael ag abledd, stigma a gwahaniaethu. Rhaid i hyn gynnwys chwalu mythau, addysg am hawliau, a mesurau rhagweithiol i **leihau casineb a rhagdybiaethau niweidiol** am fywydau a galluoedd pobl anabl.

# Galwad 5



**Galwad 5: Datganoli Lles a Budd-daliadau**

Mae systemau lles a budd-daliadau yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi **annibyniaeth, lles a diogelwch ariannol** pobl anabl. Ar hyn o bryd, mae'r systemau hyn yn cael eu rheoli'n bennaf gan Lywodraeth y DU, gan gyfyngu ar allu Cymru i gynllunio cymorth sy'n adlewyrchu realiti profiadau byw pobl anabl.

Er mwyn **ffynnu go iawn**, mae angen i bobl anabl gael system budd-daliadau wedi'i chydgynhyrchu, ynghyd â mynediad at gyfleoedd cyflogaeth sy'n deg eu tâl, yn gynhwysol, yn hyblyg ac yn addas i weithio o bell. Rhaid i gyflogwyr ddeall a chynnal hawliau pobl anabl yn y gweithle, a rhaid bod canlyniadau pan fydd y hawliau hynny'n cael eu torri.

Mae angen diwygio i wella cynlluniau fel **Mynediad i Waith**, cryfhau amddiffyniadau cyflogaeth, ac ailwampio'r **Cynllun Hyderus o ran Anabledd** i sicrhau ei bod yn cyflawni newid gwirioneddol.

Byddai datganoli pwerau lles i Gymru yn galluogi systemau cymorth mwy ymatebol, teg a chynhwysol, wedi'u cynllunio mewn cydgynhyrchiad â phobl anabl a SPA. Rydym yn dychmygu Cymru lle mae systemau lles yn **grymuso, nid yn analluogi**. Lle mae pobl anabl yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol, cymryd rhan lawn mewn cymdeithas, ac yn gallu cael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen heb ofn na stigma.

> "Heb y budd-daliadau hyn ni allwn fynd at y meddyg na'r ysbyty. Hyd yn oed siopa fyddai'n broblem. Fy nghar Motability yw fy achubiaeth. Ni allwn fforddio car heb fy PIP. Ni fyddwn yn gallu cael triniaethau i helpu i reoli fy nghlefyd." Ymatebydd Arolwg Toriadau Arfaethedig i Fudd-daliadau Anabledd
>
> Disability Wales

# Galwad 5



**Yr Hyn Rydym yn Galw Amdano**

1. **Datganoli** pwerau lles a budd-daliadau i Lywodraeth Cymru.
2. Cynllunio **system budd-daliadau** Gymreig mewn cydgynhyrchiad â SPA a phobl anabl.
3. Sicrhau bod y system yn adlewyrchu **Model Cymdeithasol o Anabledd** ac **yn blaenoriaethu urddas, dewis a chynhwysiant.**

# Casgliad



"Mae pobl anabl yng Nghymru yn haeddu mwy na dim ond goroesi. Rydym yn haeddu'r hawl i ffynnu – ac i ffynnu'n llawn".

"Mae'r maniffesto hwn yn cyflwyno gweledigaeth feiddgar a chyraeddadwy ar gyfer Cymru lle mae pobl anabl yn cael eu grymuso i fyw bywydau llawn ac ystyrlon. O ymgorffori cyfreithiol y CCUHPA a chynllun hawliau hirdymor, i arweinyddiaeth gynhwysol, byw'n annibynnol, a system lles a chyflogaeth deg a grymusol – mae pob galwad yn adlewyrchu realiti profiadau byw a dyheadau ein cymuned".

"Rydym yn gwybod bod newid yn bosibl, ond mae angen ymrwymiad, cydweithrediad a dewrder. Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i fabwysiadu'r pum galwad hyn ac i gydweithio â ni i adeiladu Cymru lle mae pobl anabl nid yn unig yn cael eu cefnogi ond yn cael eu dathlu. Cymru lle mae hawliau'n cael eu cynnal, lleisiau'n cael eu clywed, a ffynnu yw'r norm – nid yr eithriad. Gyda'n gilydd, gallwn symud o oroesi i ffynnu".

Disability Wales
Anabledd Cymru

Cymraeg

# Anabledd Cymru
Sbarc/Spark, Heol Maindy,
Caerdydd. CF24 4HQ

info@disabilitywales.org

02920 887325

www.disabilitywales.org

Cliciwch yma i roi rhodd tuag at waith Anabledd Cymru

Rhif Cwmni: 1998621
Rhif Elusen: 517391

Bluesky

X

Facebook

Instagram

LinkedIn

YouTube

Cyhoeddwyd Hydref 2025
Disability Wales
Social Firms Wales